Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Highfield House**

**Dinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**2 Ionawr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth.Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Highfield House wedi'i leoli ar Highfield Park ar gyrion pentref Llandyrnog. Mae'r darparwyr cofrestredig, Mental Health (Highfield Park) Ltd, wedi'u cofrestru i ddarparu gofal personol i chwech o oedolion gydag anableddau dysgu. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd pump o bobl yn byw yn y cartref. Mae'r darparwyr wedi penodi unigolyn i gyflawni rôl yr unigolyn cyfrifol, a'r rheolwr cofrestredig yw John Wynne Hughes.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae Highfield House yn rhoi'r cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Caiff pobl eu cefnogi gan dîm staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n eu trin â pharch. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr ac maent yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt berthnasau cadarnhaol.

**2. Gwelliannau**

Dyma arolygiad cyntaf y cartref ers ei gofrestriad.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn amlinellu ein hargymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi meddyginiaeth.
- Darparu cynnig gweithredol o ran y Gymraeg.
- Cynlluniau gofal manylach ynghylch iechyd meddwl a chorfforol.
- Gwirio cynlluniau gofal.
- Hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol.
- Dylid adolygu nodau pobl a dylent fod yn fesuradwy.
- Dylid adolygu'r polisi ymddygiad heriol.

## 1. Llesiant

**Crynodeb**
Caiff pobl eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn eu cwmni. Mae systemau ar waith i helpu i sicrhau bod iechyd a diogelwch pobl wedi'u hamddiffyn. Dylid gwneud gwelliannau o ran rhoi meddyginiaeth er mwyn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Ein canfyddiadau**
Mae pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus gyda staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n eu cefnogi i wneud dewisiadau. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref a ddywedodd wrthym, *"mae'r staff yn wych"* a *"maent yn ceisio helpu pan dwi'n drist".*Gwnaethom arsylwi ar dynnu coes cyfeillgar ac ysgafn rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod pobl yn cael eu cefnogi gan staff i gyfrannu at wneud y gwaith tŷ, fel hwfro. Gwelsom fod pobl yn cael dewis yr hyn yr oeddent am ei wneud y diwrnod hwnnw a gwnaethant ddewis gwneud eu brechdanau eu hunain amser cinio. Gwelsom fod staff yn gwrando ar bobl ac yn cynnig cymorth a sicrwydd. Gwnaethom arsylwi ar un person yn siarad ag aelod o staff trwy gyfrwng y Gymraeg; fodd bynnag, aelod o staff o gartref arall ydoedd. Rydym yn argymell y dylai'r darparwyr ystyried darparu cynnig gweithredol o ran y Gymraeg i bobl sy'n byw yn Highfield House. Ar y cyfan, mae gan bobl ymdeimlad o berthyn ac mae ganddynt berthnasau diogel a chadarnhaol gyda'r staff sy'n eu cefnogi.

Mae gan bobl ddewis o ran sut maent yn treulio eu hamser a chânt eu hannog i ddilyn gweithgareddau unigol. Canfuom fod pobl yn gallu bod yn annibynnol ar drafnidiaeth y cartref oherwydd eu bod wedi prynu tocynnau bws a thrên iddynt. Dywedodd pobl wrthym am wibdeithiau yr oeddent wedi mynd arnynt gan ddefnyddio cwmni bws lleol. Gwelsom fod gan bobl gynllunwyr gweithgareddau unigol, a oedd yn cynnwys gweithgarwch addysgol, cymdeithasol a hamdden. Roedd pobl â diddordeb penodol, er enghraifft, mewn cerddoriaeth, yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol. Roedd person arall yn dymuno ymgymryd â gwaith rhan amser, ac er na chyflawnwyd hyn, sicrhawyd prawf fel gwirfoddolwr yr oedd yn dymuno ei wneud. Gwelsom fod cyfleusterau ar gael i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft; chwarae ar yr Xbox mewn un lolfa ac roedd teledu mewn lolfa arall. Mae pobl yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae systemau ar waith i amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd ffeiliau gofal yn dangos bod asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer pob unigolyn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu esbonio eu rôl a'u cyfrifoldeb i ni er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Dywedodd pobl wrthym y byddent yn siarad â staff neu reolwr y cartref pe baent yn anhapus ynglŷn â'r ffordd yr oeddent yn cael eu trin. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos eu bod yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch priodol, er enghraifft, profion diogelwch tân a thrydanol. Gwelsom fod archwiliadau amrywiol wedi'u cynnal, gan gynnwys meddyginiaeth a rheoli heintiau, a oedd yn dangos eu bod wedi mynd i'r afael â diffygion neu broblemau yn gyflym.
Gwnaethom gynnal archwiliad ar feddyginiaeth a oedd yn dangos bod systemau ar waith i helpu sicrhau ymwybyddiaeth staff o'r meddyginiaethau a'r ffordd y dylid eu rhoi. Roedd gweithdrefnau cywir ar waith ar gyfer archebu, storio a chael gwared â'r meddyginiaethau. Gwelsom fod disgwyl i bobl eistedd ar gadair yn y coridor i aros cyn cael eu galw i mewn i'r

ystafell feddyginiaeth ar gyfer eu meddyginiaeth. Rydym yn argymell y dylid adolygu'r weithdrefn ar gyfer rhoi meddyginiaeth i adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff pobl eu hamddiffyn rhag niwed osgoadwy.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Caiff pobl eu cefnogi gan dîm staff sy'n eu trin ag urddas a pharch ac sy'n ymwybodol o'u hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

Caiff anghenion unigol eu nodi trwy asesiadau gan y cartref a gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd ffeiliau gofal yn dangos bod asesiadau cyn derbyn wedi'u cynnal, er nad oeddent bob tro wedi'u dyddio, ac roedd cynlluniau gofal wedi'u llunio o'r anghenion hynny a nodwyd. Canfuom fod y cynlluniau wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys manylion ynghylch sut i gefnogi pobl orau. Nid oedd tystiolaeth fod pobl wedi cytuno i'r cynlluniau hyn, gan nad oeddent hwy na'u cynrychiolwyr wedi'u llofnodi. Dywedodd rhai pobl wrthym am eu cyflyrau iechyd meddwl ychwanegol; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i amlygu o fewn y ffeiliau gofal. Roeddent yn derbyn meddyginiaeth ac yn cael eu monitro gan berson meddygol priodol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod staff yn gallu eu cefnogi'n llawn, dylai gwybodaeth fod ar gael o fewn y cynllun gofal ynglŷn â'r cyflwr, ynghyd ag arwyddion a symptomau ailwaeledd. Gwelsom fod asesiadau risg a chynlluniau rheoli wedi'u cwblhau a'u bod yn gyfredol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio anghenion unigolion a'r math o gefnogaeth yr oedd angen iddynt ei darparu. Gwnaethom siarad â pherthnasau a ffrindiau a ddywedodd wrthym, *"mae'r staff yn wych"* a bod eu perthynas yn hapus iawn yn byw yn y cartref. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau o ran eu perthynas a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gofal. Gwelsom ddogfennau adolygu cynnydd a oedd yn nodi bod cynlluniau wedi'u hadolygu. Fodd bynnag, roedd y dogfennau'n ddryslyd o ran y ffaith nad oedd yn hawdd gweld pa nodau unigol y cytunwyd arnynt a'r cynlluniau penodol yr oedd eu hangen i gyflawni'r nodau hyn. Rydym yn argymell y dylid ysgrifennu nodau pobl yn glir, a sicrhau eu bod yn fesuradwy a bod y cynnydd yn cael ei adolygu yn eu herbyn. Mae pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir ac mewn ffordd maent yn ei dymuno. Fodd bynnag, dylid gwneud gwelliannau i'r dogfennau cynlluniau gofal.

Mae'r bobl sy'n byw yn Highfield House yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o redeg y cartref a'u gofal. Gwelsom fod samplau o wahanol liwiau o baent wedi'u peintio ar waliau'r lolfeydd er mwyn galluogi pobl i fynegi eu barn o ran pa liw y dylid ei ddewis. Gwelsom fod pobl yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith tŷ, gan gynnwys golchi llestri ar ôl cinio, a dywedodd pobl wrthym eu bod yn edrych ar ôl yr ardd a'r blodau. Roedd ffeiliau gofal yn dangos y gofynnwyd i bobl nodi'r math o staff y byddent yn dymuno derbyn cymorth ganddynt gan ddefnyddio 'dull paru'. Dywedodd pobl wrthym am eu gweithwyr allweddol a sut yr oedd hyn yn eu galluogi i ddweud beth yr hoffent ei wneud â'u hamser ac i siarad am bethau a oedd yn peri gofid iddynt. Dywedodd pobl wrthym fod ganddynt fynediad at eiriolwr a oedd yn ymweld ac yn siarad â nhw. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac maent yn cyfrannu at y penderfyniadau hyn.

Caiff pobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd meddwl a chorfforol. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau meddyg teulu lleol, deintydd ac optegydd. Yn ogystal â hyn, gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt fynediad at wasanaethau arbenigol fel seiciatreg. Roedd cofnodion gofal yn dangos bod pobl wedi mynychu'r

apwyntiadau amrywiol hyn gyda chefnogaeth gan staff a bod ganddynt gynlluniau gweithredu iechyd unigol a phasbortau ysbyty. Roedd y dogfennau hyn yn cynorthwyo staff a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu'r gefnogaeth gywir i'r unigolyn dan sylw. Dywedodd pobl wrthym am y gefnogaeth y gwnaethant ei derbyn mewn perthynas â chynnal ffordd iach o fyw; er enghraifft, rhoi'r gorau i ysmygu a cholli pwysau. Gwelsom fod y rhain wedi'u nodi fel canlyniadau i bobl yn eu hadolygiadau gofal a chymerwyd camau gweithredu i gefnogi pobl i gyflawni'r rhain. Gwnaethom adolygu'r bwydlenni a arddangosir a chanfuom fod y rhain yn cynnwys manylion bras o'r hyn a oedd yn cael ei fwyta, e.e. byrgyrs cyw iâr. Dywedodd staff wrthym fod hyn yn cael ei ychwanegu gan fathau eraill o fwyd i ddarparu deiet cytbwys cyffredinol. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn bwyta llysiau, tatws, salad a ffrwythau yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y fwydlen. Gwelsom fod ffrwythau ar gael ac roedd pobl yn helpu eu hunain iddynt yn ystod y dydd. Dywedodd pobl wrthym fod staff yn gofyn iddynt ar ddydd Sul beth yr hoffent ei weld ar y fwydlen ac y byddent yn gallu cael rhywbeth gwahanol i'w fwyta pe baent yn dymuno hynny. Gwelsom fod y bobl nad oedd yn dymuno cael y llenwad brechdan a baratowyd i ginio yn bwyta rhywbeth arall. Caiff pobl eu cefnogi a'u hannog i fod cyn iached ag y gallant fod.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r awyrgylch yn Highfield House yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae gan bobl fynediad at ardaloedd cymunedol diogel a digonol y tu mewn a thu allan, yn ogystal â'u hystafelloedd gwely personol.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn ymfalchïo yn y gwaith o gadw'r cartref yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod rhai pobl wedi personoli eu hystafelloedd gwely a dywedodd yr unigolion hynny wrthym eu bod wedi dewis y celfi. Gwelsom nad oedd gan rai pobl allwedd i'w hystafelloedd gwely ac mai'r staff oedd yn agor y drws a'r wardrobau. Gwnaethom drafod yr effaith ar hunan-barch y bobl pan nad oedd ganddynt reolaeth dros faterion o'r fath gyda rheolwr y cartref. Gwnaeth gytuno i adolygu'r asesiadau risg yn unol â'r weithdrefn ar gyfer cymryd risgiau cadarnhaol.
Roedd yr ardaloedd cymunedol yn gynnes a chanddynt ddodrefn digonol. Gwelsom fod y gegin wedi'i haddurno a bod popty newydd ar fin cael ei osod. Roedd y golchdy yn cael ei addurno ar adeg yr arolygiad. Gwelsom fod angen ailaddurno sawl ardal o'r cartref, yn enwedig yr ystafelloedd ymolchi. Cawsom wybod bod cynlluniau am gael eu trafod o ran gwelliannau cyffredinol i'r amgylchedd. Cytunodd y rheolwr i anfon y cynlluniau adnewyddu ymlaen pan gytunwyd arnynt.
Gwnaethom adolygu cofnodion diogelwch tân a gwelsom fod profion yn cael eu cynnal mewn perthynas â mannau canu'r larwm a'r drysau tân. Cwblhawyd gwiriadau goleuo mewn argyfwng a phrofwyd y cyfarpar diffodd tân gan unigolyn cymwys. Dywedodd y rheolwr a'r staff wrthym fod hyfforddiant diogelwch tân mewnol yn cael ei gynnal bob tair blynedd a bod llawlyfr yn cael ei gwblhau bob chwe mis i adnewyddu eu gwybodaeth. Roedd y matrics hyfforddiant a ddarperir yn dangos bod pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant tân mewnol gorfodol o fewn y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd un o'r rheini yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r llawlyfr diogelwch tân wedi gwneud hynny o fewn y chwe mis diwethaf. Rydym yn argymell y dylid adolygu a diweddaru'r hyfforddiant staff yn hyn o beth, lle bo angen. Gwelsom fod cynlluniau gadael mewn argyfwng ar gael ar gyfer pawb sy'n byw yn y cartref.
Gwnaethom adolygu'r cofnodion profi dyfeisiau trydanol a chanfuom fod y rhain wedi'u cwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a chymerwyd camau gweithredu adferol ar gyfer y diffygion a nodwyd; er enghraifft, rhoddwyd plwg newydd yn lle un diffygiol.
Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu taflu'n gywir; roedd cyfleusterau a chyfarpar ar gyfer golchi dwylo ar gael yn y gegin, y golchdy a'r ystafell feddyginiaeth.
Roedd tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn y gegin yn cael eu gwirio bob dydd ac yn ymddangos eu bod o fewn y cyfyngiadau cydnabyddedig. Roedd yn ymddangos fel petai tymheredd y cwpwrdd a'r oergell meddyginiaethau yn cael ei wirio bob dydd.
Gwnaethom sylwi bod holl ardaloedd y cartref yn rhydd rhag peryglon a bod pobl yn gallu symud o gwmpas y lle yn ddirwystr.  Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion unigol pobl ac yn ffafriol i ddatblygiad perthnasau oherwydd ei fod yn cynnig ardaloedd i bobl gymdeithasu â'i gilydd.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Highfield House yn gallu mynegi eu barn a'u pryderon. Mae rheolwr y cartref a'r rheolwr cofrestredig ar gael ac yn gefnogol. Mae systemau ar waith i helpu i sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

### Ein canfyddiadau

Mae gwybodaeth ddigonol a phriodol ar gael i bobl mewn perthynas â'r hyn sydd ar gael iddynt yn y gwasanaeth. Roedd y canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth a roddir i bobl yn rhoi gwybodaeth mewn fformat darluniadol yn ychwanegol at yr arweiniad ysgrifenedig. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys manylion ynglŷn â'r llety, cyfleoedd cymdeithasol a hamdden, sut i gwyno, sut i gael mynediad at eiriolwyr a'r mathau o gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gallu dweud wrthym beth y byddent yn ei wneud pe baent yn anfodlon ar eu gofal neu'r ffordd y mae'r cartref yn cael ei redeg. Rhoddodd pobl enghreifftiau o'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt a'r ffordd y cânt eu cefnogi gan y staff. Dywedodd pobl wrthym fod ganddynt eiriolwr a'u bod yn gwybod sut i gysylltu â nhw. Mae pobl yn gwybod pa gyfleusterau, gwasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut i fynegi eu pryderon.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau bod staff yn cadw pobl yn ddiogel ac yn darparu gofal a chymorth iddynt. Gwnaethom adolygu'r polisi diogelu ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hyn. Pan oedd ymddygiad pobl wedi effeithio ar eraill, gwelsom eu bod wedi cofnodi hyn, ei adrodd lle bo angen, ei ddadansoddi a'u bod wedi cymryd camau gweithredu i atal sefyllfa debyg rhag codi. Roedd y polisi a'r weithdrefn ymddygiad heriol a ddarparwyd wedi'u hysgrifennu gan awdurdod arall ac roedd yn cyfeirio at systemau nad oeddent yn eu defnyddio yn Highfield House. Dylid adolygu'r ddogfen hon i gynnwys yr wybodaeth a'r systemau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Roedd ffeiliau gofal yn dangos bod egwyddorion arferion da, sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r ymyriadau lleiaf cyfyngol, yn cael eu defnyddio. Roedd cofnodion hyfforddiant yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl (MAPA) Gwelsom y staff yn mynd ati'n llwyddiannus i reoli sefyllfa rhwng dau berson trwy ddefnyddio technegau dargyfeirio a thynnu sylw. Roedd cofnodion digwyddiadau'n dangos eu bod yn defnyddio ymyriadau nad ydynt yn gorfforol. Mae pobl yn elwa ar wasanaeth sy'n ymdrechu i weithredu'r arferion gorau.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi i gydweithio'n dda fel tîm i ddarparu cysondeb cefnogaeth i bobl. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hoff o'r staff ac mai rheolwr y cartref oedd *"y gorau".*Dywedodd pobl wrthym eu bod yn gweld y rheolwr cofrestredig bob dydd a'u bod yn hapus eu bod yn gallu siarad ag ef. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a bod rhywun bob amser ar gael i ateb eu cwestiynau. Roedd ffeiliau staff yn dangos bod pobl yn derbyn cyfnod ymsefydlu ac yn cwblhau sifftiau cysgodol â staff sy'n fwy profiadol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y cartref. Dywedodd staff wrthym, ac roedd cofnodion yn cadarnhau, eu bod yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn cwrdd fel grŵp i drafod materion yn ymwneud â rhedeg y cartref a gofal y bobl sy'n byw yno. Roedd y matrics hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant diweddar o ran; diogelu, MAPA, rheoli heintiau, hylendid bwyd a hyfforddiant iechyd a

diogelwch. Roedd dyddiadau wedi'u nodi i ddangos pryd fyddai hyfforddiant angenrheidiol yn y meysydd eraill yn cael ei gynnal. Caiff pobl eu cefnogi gan staff sy'n cael eu harwain, eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda ac mae’r staff o’r farn bod hynny’n wir hefyd

## 5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Dylid adolygu'r weithdrefn ar gyfer rhoi meddyginiaeth er mwyn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylai'r darparwyr ystyried sut y gallent ddarparu cynnig gweithredol o ran y Gymraeg i'r bobl sy'n byw yn Highfield House.
- Dylai'r cynlluniau gofal ddarparu digon o fanylder ynglŷn â'r holl gyflyrau iechyd meddwl a chorfforol er mwyn cynorthwyo staff i gefnogi pobl ac i nodi unrhyw arwyddion o ailwaeledd.
- Er mwyn dilysu cynlluniau gofal, dylai'r rhain gael eu llofnodi gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd.
- Dylai nodau ar gyfer pobl gael eu hysgrifennu'n glir, dylent fod yn fesuradwy a dylid adolygu'r cynnydd yn eu herbyn.
- Dylid adolygu'r polisi a'r weithdrefn ymddygiad heriol i gynnwys yr wybodaeth a'r systemau a ddefnyddir gan y gwasanaeth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom gynnal ymweliad dirybudd â'r cartref ar 14 Tachwedd 2017 rhwng 9.25am a 5.20pm. Rhoddwyd adborth i'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y cartref.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

Gwnaethom siarad â thri o bobl sy'n byw yn y cartref, tri aelod o staff, un perthynas, rheolwr y cartref a'r rheolwr cofrestredig.

Gwnaethom arsylwi ar y rhyngweithio rhwng pobl sy'n byw yn y cartref a'r staff.

Roedd y cofnodion a adolygwyd yn cynnwys:

- Dwy ffeil ofal a chynlluniau gofal cysylltiedig
- Dwy ffeil staff a oedd yn cynnwys cofnodion goruchwylio a hyfforddi
- Cofnodion tân, dyfeisiau trydanol, cynnal a chadw, digwyddiadau a damweiniau
- Y Datganiad o Ddiben a Chanllaw Defnyddwyr y Gwasanaeth
- Gweithdrefn gwyno a chofnodion
- Amserlenni staff

Gwnaethom gynnal archwiliad meddyginiaeth

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref Gofal i Oedolion – Iau** |
| **Person cofrestredig** | **Mental Health Care (Highfield Park) Cyfyngedig** |
| **Rheolwr cofrestredig** | **John Hughes** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **Chwech** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Tachwedd2017** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nid yw hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |